

TAG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

Pam dewis TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant?

Bydd y consortiwm City & Guilds/CBAC TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau manwl i chi am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol y rhychwant oes o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Mae'r cyfle gennych i feithrin eich dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddwch hefyd yn meithrin dealltwriaeth fanwl o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain.

Byddwch yn ennill dealltwriaeth drylwyr o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Beth fyddaf yn ei astudio?

Mae'r fanyleb hon yn cynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru sy'n foesegol a chynaliadwy. Hybu dysgu gweithredol a phersonoli drwy roi cyfleoedd i chi ymchwilio i faterion a thestunau gofal o'ch dewis eich hunain. Byddwch yn dilyn astudiaeth eang o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar lefel UG ac mae dewis llwybr ar lefel U2 yn rhoi cyfle i chi ddatblygu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth naill ai mewn gofal plant neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedolion.

Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Drwy astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, byddwch yn gallu dangos eich bod:

- yn deall y materion moesegol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y sectorau Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- yn ymwybodol o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- yn deall y dulliau plentyn-ganolog neu berson-ganolog o ofalu
- yn gallu dehongli a gwerthuso damcaniaethau ym maes Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, a myfyrio ar sut maen nhw'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau
- yn gallu nodi'r ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a biolegol sy'n cyfrannu at Iechyd da, ac esbonio rôl llywodraeth a gweithwyr proffesiynol wrth hyrwyddo a chynnal Iechyd da
- yn gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol o fewn eu hastudiaethau.

TAG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT



Sut byddaf yn cael fy asesu?

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o bum uned, dwy uned UG a thair uned U2. Mae dysgwyr Safon Uwch yn astudio cyfanswm o bedair uned: dwy uned UG ynghyd â'r ddwy uned U2 yn gysylltiedig â'r llwybr a ddewiswyd ganddynt. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG		
UG Uned 1: Strategaethau Trefniadaeth a Gwneud Penderfyniadau; asesu drwy arholiad ysgrifenedig.		
<ul style="list-style-type: none">• 2 awr• 20% o'r cymhwyster• 80 marc	<ul style="list-style-type: none">• amrywiaeth o fathau o gwestiynau• cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb	<ul style="list-style-type: none">• mae pob cwestiwn yn orfodol
UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru; asesu drwy asesiad di-arholiad: wedi'i farcio gan eich athro, a'i gymedrol'i'n allanol gan CBAC.		
<ul style="list-style-type: none">• tua 30 awr• 20% o'r cymhwyster 100 marc	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r dasg hon yn asesu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â'r ffordd y mae iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion yng Nghymru yn cael eu cefnogi drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.	
Safon Uwch Unedau 1 a 2 yn ogystal â:		
Llwybr Gofal Plant		
U2 Uned 3: Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc; asesu drwy arholiad ysgrifenedig.		
<ul style="list-style-type: none">• 2 awr 30 munud• 30% o'r cymhwyster• 100 marc• amrywiaeth o fathau o gwestiynau	<ul style="list-style-type: none">• cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb mewn dwy adran:<ul style="list-style-type: none">- Mae Adran A (40 marc) yn ymwneud â deunydd sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw	<ul style="list-style-type: none">- Adran B (60 marc)• mae pob cwestiwn yn orfodol
U2 Uned 4: Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant		
<ul style="list-style-type: none">• tua 40 awr• 30% o'r cymhwyster• 100 marc	<ul style="list-style-type: none">• tasg sy'n asesu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Nghymru ac mae'n gofyn i chi gynhyrchu adnodd gwybodaeth i rywun sy'n cynllunio ar gyfer gyrfa yn y sector gofal plant yn y dyfodol	
Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion		
U2 Uned 5: Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion; asesu drwy arholiad ysgrifenedig.		
<ul style="list-style-type: none">• 2 awr 30 munud• 30% o'r cymhwyster• 100 marc• amrywiaeth o fathau o gwestiynau	<ul style="list-style-type: none">• cyflwynir y papur ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb mewn dwy adran:<ul style="list-style-type: none">- Mae Adran A (40 marc) yn ymwneud â deunydd sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw	<ul style="list-style-type: none">llaw- Adran B (60 marc)• mae pob cwestiwn yn orfodol
U2 Uned 6: Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch; asesu drwy asesiad di-arholiad, wedi'i farcio gan eich athro a'i gymedrol'i'n allanol gan CBAC.		
<ul style="list-style-type: none">• tua 40 awr• 30% o'r cymhwyster• 100 marc	<ul style="list-style-type: none">• tasg sy'n asesu'ch gwybodaeth, dealltwriaeth a'ch sgiliau mewn perthynas â datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch oedolion yng Nghymru, ac mae'n gofyn i chi gynhyrchu adnodd gwybodaeth i rywun sy'n cynllunio ar gyfer gyrfa yn y sector gofal iechyd a chymdeithasol oedolion yn y dyfodol.	

Gyrfaoedd gyda TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi hyd yn oed os nad ydych chi'n mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Mae'n cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsoedd addysg uwch, neu i gyflogaeth. Gallwch hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill o fewn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Nid yw'r fanyleb yn benodol ar gyfer unrhyw oedran ac, o'r herwydd, mae'n rhoi cyfle i chi ymestyn eich dysgu gydol oes. Byddwch yn ennill dealltwriaeth

drylwyr o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodol, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r fanyleb hon yn cynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foeseogol a chynaliadwy yng Nghymru, a bydd yn eich galluogi i wneud penderfyniadau gwybodol ynglŷn â chyfluoedd dysgu pellach neu wneud dewisiadau gyrfaol cysylltiedig.